# Interniaeth Project Amgylcheddol

## Cyflog: £24,510 - £27,147 y flwyddyn pro rata (Gradd 4)
## Math o gytundeb: Amser llawn (36.5 awr yr wythnos), Cyfnod penodol o 12 wythnos

**Yr her**

CBAC yw prif gorff dyfarnu Cymru. Ymhlith yr hyn yr ydym yn ei gyfrannu at ein cymunedau addysg y mae darpariaeth cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

**Y rôl**

Fel Intern Project Amgylcheddol, byddwch chi'n cyfrannu at nod sero net strategol y corff gan adrodd i reolwyr drwy ddangosfyrddau a meddalwedd dadansoddi/adrodd arall.
Yn rhan o'r rôl, byddwch chi'n archwilio ac yn datblygu dulliau o adrodd a meincnodi data i wella mewnwelediadau eich busnes ymhellach yn gysylltiedig ag effaith carbon CBAC ar draws pob allyriad cwmpas 3. Byddwch chi hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad cyfres o ddulliau adrodd/dadansoddi a fydd yn darparu gwybodaeth berthnasol i CBAC.

**Yr unigolyn**

Byddwch chi'n unigolyn hunan-gymhellol ond yn chwaraewr tîm hefyd sy'n mwynhau cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid ac adrannau gwahanol. Byddwch chi'n cyfathrebu'n effeithiol, gyda'r gallu i esbonio dadansoddiadau data cymhleth i gynulleidfa annhechnegol. Bydd gennych neu byddwch chi'n anelu at ennill gradd a/neu gymhwyster meistr (neu gyfwerth) gyda phrofiad o reoli projectau a dadansoddi data.

**Ein buddion**

Mae CBAC yn gorff croesawgar a chefnogol, sy'n falch o gynnig amrediad eang o fuddion hael i'w gyflogeion gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (ynghyd ag 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol), cyfleoedd i hyfforddi a datblygu gan gynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg am ddim, a chynllun pensiwn da.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 23:59; dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024

**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 09 Rhagfyr 2024**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Intern Project Amgylcheddol |
| **Adran:** | Gweithrediadau |
| **Isadran:** | Cyfleusterau |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol |
| **Gradd:** | 4 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd/Hybrid |

**Prif bwrpas y Swydd:**

Bydd yr Intern Project Amgylcheddol yn gyfrifol am ddatblygu dangosfwrdd adrodd ar gyfer allyriadau carbon, gyda metrigau gweledol a swyddogaeth fanylu i allu monitro tueddiadau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chyflenwyr i nodi ffynonellau allyriadau cwmpas 3 a meintoli lefelau, i gefnogi'r datblygiad o'r dangosfwrdd adrodd.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm arweinyddiaeth gweithrediadau i nodi cyfleoedd cynhyrchu ynni a helpu i greu achosion busnes cysyniadol i'w hystyried o ran buddsoddi cyfalaf. Ar yr un pryd bydd yn  hefyd datblygu map sero net strategol a chamau tactegol i allu llwyddo.

Byddwch chi hefyd yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth gyfrannu at brojectau delweddu data, gan gyflwyno syniadau newydd i barhau i wella'r ffordd mae'r corff yn defnyddio dadansoddiadau a mewnwelediadau data. Yn rhan o'r project hwn, byddwch chi'n gweithio i fodloni terfynau amser projectau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd unrhyw broject i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithrediadau, gan hefyd sicrhau bod y project wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, ac unrhyw faterion wedi'u codi, o fewn yr amserlenni priodol

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

**Dadansoddi a Delweddu Ffactorau Allweddol sy'n Ysgogi Busnes**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol, a chyflenwyr allanol i nodi, meintioli a chyfuno'r holl ddata ffynhonnell ar allyriadau carbon.
- Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithrediadau i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol amgylcheddol ystyrlon a  dangosfyrddau adrodd.
- Creu dadansoddiadau a delweddau data gwerthfawr iawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a ffynonellau data allweddol eraill, gan ddefnyddio pŵer a meddalwedd perthnasol eraill.
- Cynnig argymhellion a gwelliannau i adroddiadau a delweddau a/neu dechnegau dadansoddi presennol.
- Cyflawni dadansoddiadau ad-hoc ar gyfer ceisiadau busnes a cheisio creu delweddau yn seiliedig ar ddata ar gyfer gwelliannau gweithredol.

**Rheoli Projectau**

- Cydweithio â chydweithwyr yn yr adrannau Gweithrediadau, Cyllid, Gwerthiant a Marchnata a TG a rhanddeiliaid eraill (yn dibynnu ar y project) i gasglu a diffinio gofynion dadansoddi busnes er mwyn helpu i ysgogi perfformiad ac amcanion corfforaethol yn gysylltiedig ag effaith amgylcheddol.
- Ymgymryd ag ymchwil mewn technolegau cynhyrchu / lleihau ynni, technolegau sy'n datblygu a'i ymgorffori mewn achosion busnes cysyniadol ar gyfer ystyriaeth buddsoddi cyfalaf.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd unrhyw broject i'r Arweinyddiaeth Gweithrediadau, gan sicrhau bod terfynau amser projectau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, ac unrhyw faterion wedi'u codi, o fewn yr amserlenni priodol.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Cysylltu â chydweithwyr mewnol ym mhob rhan o'r busnes er mwyn gallu dysgu, cydweithio a gwella, gan gynnig cefnogaeth a datrysiadau yn ôl yr angen
- Sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol gyda chyflenwyr trydydd parti i gael dealltwriaeth lawn o allyriadau cwmpas 3.
- Cydweithio'n rhan o dîm i ddeall dadansoddiadau/delweddau cyfredol a ffyrdd o wella lefel y mewnwelediad a gafwyd gan y tîm.

**Gweithgareddau ychwanegol**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Job Title:** | Intern Project Amgylcheddol |
| **Adran:** | Gweithrediadau |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol, ond nid oes disgwyl i ymgeiswyr fodloni pob un o'r rhain. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

### Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau diagnostig a datrys problemau gwych
- Y gallu i gydweithio a chyfathrebu ag amrywiol randdeiliaid ar draws y busnes, yn fewnol ac yn allanol
- Unigolyn sy'n meddwl yn rhesymegol ac yn gallu dod i ddeall cysyniadau newydd yn gyflym
- Parodrwydd i fod yn hyblyg yn y gwaith a'r gallu i reoli terfynau amser sy'n gwrthdaro
- Profiad / cymhwyster ffurfiol mewn Rheoli Projectau
- Y gallu i weithio'n effeithlon a pheidio â chynhyrfu o dan bwysau
- Lefel uchel o fanwl gywirdeb a sylw i fanylion
- Y gallu i ddadansoddi data ac adborth i sicrhau gwelliant parhaus
- Cyfathrebwr rhagorol sy'n gallu cyfleu termau technegol cymhleth yn glir a chryno i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd
- Y gallu i ragfynegi, gan fynd ati i chwilio am ddatrysiadau creadigol ond ymarferol i broblemau cymhleth

**Dymunol**

- Y gallu i siarad Cymraeg

### Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth am Power BI ac offer / systemau dadansoddi data eraill
- Profiad o ddatblygu achosion sy'n seiliedig ar ddata cysyniadol / asesiadau ariannol
- Dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i achosion
- Dealltwriaeth lawn o gwmpasau allyriadau

**Dymunol**

- Gwybodaeth am becyn ystadegol (e.e. R, Stata, Minitab, Labview ac ati)
- Sgiliau cyflwyno ardderchog

### Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o ddefnyddio data i ddatrys problemau / creu datrysiadau
- Gweithio yn rhan o dîm i fynd i'r afael â mater penodol
- Rheoli Projectau

### Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Cymhwyster gradd (neu gyfwerth) mewn Gwyddoniaeth neu faes Technegol neu'n gweithio tuag ato.

**Dymunol**

- Ar hyn o bryd yn gweithio tuag at lefel Meistr

| **Telerau ac Amodau Gwasanaeth** | | | **Terms and Conditions of Service** |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd / Job Title:** | Intern Project Amgylcheddol / Environmental Project Intern | | |
| **Cyflog / Salary:** | £24,510 - £27,147 y flwyddyn/per annum pro rata | **Gradd / Grade:** | 4 |
| **Gwyliau Blynyddol / Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd. Pro rata.<br><br>25 Days per annum. In addition, WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. Pro rata. | | |
| **Pensiwn / Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol.<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply. | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** | |
|---|---|---|
| ☐ Llawn amser / Full Time | | |
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos No. of hrs per week** | |
| ☒ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor End of Term** | 3 mis |
| ☐ Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor End of Term** | / / |
| | **Nifer yr oriau yr wythnos No. of hrs per week** | |

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **23:59; dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024.**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **23:59; Tuesday 26 November 2024.**